Cyfarfod Partneriaeth Natur Leol Ceredigion

Partneriaeth Natur Ceredigion
Ceredigion Nature Partnership

Cofnodion

Dyddiad:	20/07/26
Lleoliad:	Neuadd Goffa Caerwedros – Hybrid Teams

Yn Bresennol

Eryl Evans (Cadeirydd)	EE	Cynghorydd Sir Llangybi, Cyngor Sir Ceredigion
Gillian Clark (Cofnodion)	GC	Cydlynydd, Partneriaeth Natur Ceredigion
Fiona Moran	FM	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Jake Rayson	JR	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Chris Harris	CH	Cynorthwy-ydd Bioamrywiaeth, Partneriaeth Natur Ceredigion
Norman Birch	NB	Swyddog Coed a Gwrychoedd Cyngor Sir Ceredigion
Sarah Smyth	SS	Uwch Ecolegydd Cyngor Sir Ceredigion
Leah Ludgate	LL	Myfyrwraig Prifysgol Aberystwyth
Alison Heal	AH	Cyn Uwch Ecolegydd, Cyngor Sir Ceredigion
Claire Hannington	CHa	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
Paul Taylor	PT	Cofnodydd Sir, Gwarchod Glöynnod Byw
Rebecca Wright	BW	Cyfoeth Naturiol Cymru
Rosie Hemsley	RH	Grŵp Moch Daear Ceredigion
Sean McHugh (Ar-lein)	SMH	Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru
Sian Jones	SJ	Cyfieithydd
Silyn Roberts	SR	Prosiect Tylluanod Gwynion Ceredigion
Wayne Lewis	WL	Tŵr Hafod y Wennol

1	**Ymddiheuriadau:** Chris Harris, Bob Jacques, Tim Strang a Joan Swannell. Cafwyd ymddiheuriad ychwanegol gan aelod nad oedd am ddatgelu amgylchiadau personol.

2	**Nodiadau'r cyfarfod diwethaf a materion yn codi**
	Nid oedd materion yn codi o'r cyfarfod blaenorol. Cytunwyd ar y cofnodion.

3	**Cyflwyniadau gan y rhai a oedd yn bresennol**

4	**Dyddiadau Cyfarfodydd yn y Dyfodol**
	Ar-lein: Dydd Mawrth 22 Ionawr Lleoliad i'w gadarnhau – dydd Mawrth 20 Ebrill

5	**Diweddariad y Cydlynydd**
	Rhoddodd **GC** yr wybodaeth ddiweddaraf am drafodaethau cyllido gyda Llywodraeth Cymru. Cafwyd arwyddion calonogol ynglŷn â chefnogaeth i'r Bartneriaeth yn y dyfodol, er nad oedd cadarnhad wedi'i gael eto. Roedd y Bartneriaeth wedi gofyn am fwy o gyllid refeniw, nid yn unig i gefnogi staff ond hefyd i ddarparu cymorth i grwpiau gwirfoddol ac i helpu i gynnal prosiectau a seilwaith. Crybwyllodd **GC** fod trafodaethau wedi cynnwys posibilrwydd cylch cyllido pedair blynedd. Byddai hyn yn darparu cyfnod mwy realistig ar gyfer cynllunio a chyflawni prosiectau, yn hytrach na chanolbwyntio sefydlu a chyflawni mewn cyfnod llawer byrrach. Roedd y Bartneriaeth hefyd yn aros am benderfyniad ynghylch sefydlu ei phresenoldeb cyfryngau cymdeithasol ei hun. Yn y cyfamser, parhaodd i ddefnyddio sianeli'r Cyngor. Roedd **GC** yn gobeithio y byddai'r Bartneriaeth yn gallu cyfathrebu trwy ei sianeli ei hun erbyn mis Ionawr 2027. Roedd y broses dendro ar gyfer dau dŵr bywyd gwyllt o garreg wedi'i chwblhau. Roedd y naill yn cael ei ddatblygu trwy'r Gronfa Her a'r llall trwy gynllun Lleoedd Lleol ar gyfer Natur. Soniodd **GC** fod y tendr llwyddiannus wedi cyflawni sgôr dechnegol uchel iawn. Yn dilyn sylw yn y wasg, roedd y Bartneriaeth yn paratoi eglurhad am y trefniadau cyllido, gan gynnwys y ffaith nad oedd y gwaith yn cael ei ariannu drwy'r Dreth Gyngor. Roedd gan y contractwr ddiddordeb hefyd mewn cyhoeddi datganiad ochr yn ochr â'r Cyngor. Roedd yr esemptiad gofynnol yn

	dal i gael ei ddilyn cyn y gallai'r gwaith ddechrau. Roedd lleoliadau wedi'u nodi a byddai'r prosiect yn barod i fwrw ymlaen ar ôl cael cymeradwyaeth. Dywedodd **GC** fod dau o'r cyflwynwyr wedi tynnu allan y diwrnod cyn y cyfarfod a gofynnodd fod y cyflwynydd terfynol **WL** yn cael cyflwyno yn y bore er mwyn osgoi oedi hir rhwng sesiynau.	
	GC i sicrhau bod **EE** yn fodlon ar y Cylch Gwaith cyn ei gyfieithu.	Dydd Gwener 13 Tachwedd yw'r dyddiad cau

6	**Cyflwyniadau**	
	Wayne Lewis - Tŵr Hafod y Wennol Silyn Roberts – Prosiect Tylluanod Gwynion Ceredigion	
Camau Gweithredu	Cyflwyno **NB** ac **SR** ynglŷn â gwirfoddolwyr yn gweithio i Brosiect Tylluanod Ceredigion.	

	Diweddariadau a Thrafodaeth Aelodau
7	**Cymdeithas Edward Llwyd** Dywedodd **AH** ei bod wedi cael ei hethol yn Is-gadeirydd Cymdeithas Edward Llwyd yn ddiweddar (sef Cymdeithas Naturiaethwyr Cymru). Eglurodd nad oedd hi wedi bod i gyfarfod yn y rôl newydd hon eto a'i bod yn dal i ddarganfod mwy am y cyfrifoldebau dan sylw. Cyflwynodd **AH** weithgareddau'r Gymdeithas, gan gynnwys ei theithiau cerdded rheolaidd bob dydd Sadwrn a gynhelir mewn lleoliadau ledled Cymru, gyda digwyddiadau wedi'u trefnu mewn gwahanol ranbarthau. Tynnodd sylw hefyd at gyhoeddiadau'r Gymdeithas, yn enwedig y Gyfres Enwau Safonol, casgliad o lyfrau cyfeirio sy'n darparu enwau planhigion Cymru safonol. Mae'r llyfrau yn caniatáu i ddefnyddwyr chwilio am blanhigyn wrth ei enw Cymraeg, Saesneg neu Ladin. Roedd gan **AH** gopïau o'r cyhoeddiadau ar gael a phrynwyd 11 o gyfresi gan y Bartneriaeth Natur Leol ar gyfer mynychwyr yr oedd arnynt eu heisiau. Anogodd aelodau o'r Bartneriaeth Natur, ac ysgolion ledled Cymru, i wneud defnydd o'r adnoddau hyn.
8	**Cyfoeth Naturiol Cymru** Rhoddodd **BW** yr wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith sy'n ymwneud ag adfer yn ardal Pumlumon a'r Cynllun Ffermio Cynaliadwy. Roedd y cytundebau

9	cyntaf wedi'u cwblhau, gan ddisgwyl grŵp arall cyn y Nadolig. Cyfeiriodd **BW** hefyd at hysbysiadau SoDdGA a blaenoriaethau monitro. Roedd gwaith yn parhau ar fapio cynefinoedd a datblygu sylfaen dystiolaeth i gefnogi rhwydweithiau ecolegol a gwydnwch ecosystemau. Roedd **CNC** yn ystyried sut y gellid dod â gwybodaeth am gynefinoedd, safleoedd gwarchodedig a gwarchodfeydd natur at ei gilydd i lywio gwaith cydweithredol yn y dyfodol. Roedd yn ddyddiau cynnar ar y gwaith hwn a byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu wrth iddo ddatblygu. Soniodd y drafodaeth hefyd yn fras am gyfyngiadau cyllido a'r adnoddau sydd ar gael i gefnogi rheoli a monitro safleoedd. **Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol** Bu **CH** yn rhoi gwybod am waith yn Rhos Rhyd, lle cyflwynwyd coleri gwartheg i helpu i reoli pori a phrysgwydd. Roedd y dull wedi llwyddo, a'r gwartheg yn ymgymryd â mwy o'r gwaith rheoli nag a ragwelwyd i ddechrau. Roedd y safle wedi ymateb yn gadarnhaol, ac roedd gwaith arolwg pellach ar y gweill ar gyfer y flwyddyn ganlynol i gymharu canlyniadau ag arolygon gwaelodlin a gynhaliwyd cyn i'r prosiect ddechrau. Soniodd **CH** hefyd am weithdy Cyngor Coed a gynhaliwyd gan yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, a fu'n gyfle i ddysgu mwy am waith wardeniaid coed a gwirfoddolwyr.
10	**Grŵp Moch Daear Ceredigion** Rhoddodd **RH** yr wybodaeth ddiweddaraf am Grŵp Moch Daear Ceredigion, a oedd wedi tyfu i 33 aelod. Roedd deg o wirfoddolwyr yn barod i ymgymryd ag achub moch daear, ac roedd hyfforddiant pellach ar y gweill yng ngogledd Ceredigion i gynyddu capasiti lleol a rhannu'r llwyth gwaith. Bu'r grŵp yn gweithio'n agosach gyda grwpiau moch daear eraill yng Nghymru ac yn cymryd rhan mewn trafodaethau gyda'r Ymddiriedolaeth Moch Daear. Cododd **RH** bryderon am bleidlais y Senedd ynglŷn â dychwelyd difa yng Nghymru ac esboniodd fod y grŵp yn gofyn am ragor o wybodaeth am sut y gellid gweithredu unrhyw gynigion. Trafododd y cyfarfod y posibilrwydd y bydd tirfeddianwyr yn datgan bod eu tir yn ardal rydd o ddifa moch daear, a goblygiadau ymarferol dull o'r fath. Nododd yr Aelodau y byddai angen rhagor o wybodaeth a thystiolaeth cyn y gallai sefydliadau fel y Cyngor neu'r Ymddiriedolaeth Genedlaethol ystyried pa gamau allai fod yn bosibl ar eu tir. Cyfeiriodd **RH** hefyd at weithgaredd ymgynnull a lobïo heddychlon arfaethedig yn y Senedd tua diwedd mis Tachwedd. Anogwyd yr aelodau i ystyried llofnodi deiseb berthnasol Llywodraeth Cymru.
11	**Gwarchod Glöynnod Byw** Soniodd **PT** am flwyddyn eithriadol o dda i loÿnnod byw, gyda nifer uchel wedi'u cofnodi ledled y sir. Roedd nifer nodedig o loÿnnod byw Ieir Fach Tramor ac Ieir Bach Melyn, yn ogystal ag adroddiadau am rywogaethau mudol eraill. Dywedodd **PT** fod niferoedd Ieir Bach Melyn wedi bod yn arbennig o drawiadol ac y byddai'n ddiddorol gweld a fyddai unrhyw rai'n cael eu cofnodi

	tua dechrau'r flwyddyn ganlynol, a allai fod yn arwydd o aeafu yn y DU. Roedd arolygon gwe larfa Brith y Gors wedi bod yn arbennig o heriol oherwydd bod y cylch bywyd wedi symud ymlaen yn gynharach nag arfer. Dechreuodd arolygon yn gynharach nag yn y blynyddoedd blaenorol, ac roedd y tîm wedi arolygu naw safle ar gyfer oedolion a 19 safle ar gyfer gweoedd larfa. Roedd cofnodion newydd yn cynnwys safleoedd lle nad oedd gweoedd larfa wedi'u darganfod o'r blaen, yn ogystal â lleoliadau lle bu'r rhywogaeth yn absennol ers nifer o flynyddoedd. Esboniodd **PT** fod argaeledd gwirfoddolwyr wedi cyfyngu ar nifer y safleoedd y gellid eu harolygu, yn enwedig am fod llawer o'r gwaith wedi digwydd yn ystod gwyliau'r ysgol. Roedd y cymorth a ddisgwyliwyd gan CNC hefyd wedi bod yn brinnach na'r disgwyl. Yng Ngwarchodfa Natur Genedlaethol Cors Caron, roedd canlyniadau'r arolwg wedi nodi nifer sylweddol o weoedd larfa. Trafododd **PT** effeithiau rheoli llystyfiant ac anawsterau pori blaenorol. Roedd ardaloedd a dorrwyd yn ôl wedi cynhyrchu tyfiant da o flodau gwyllt a phlanhigion bwyd, gyda chofnodion glöynnod byw calonogol. Byddai'r dull o dorri ymhellach yn cael ei adolygu yng ngoleuni'r arsylwadau hyn. Roedd arolygon wyau'r Frithribin Frown i fod i ddechrau yn wythnos gyntaf mis Tachwedd, gan gynnwys gwaith yng Nghanolfan Natur Cymru. Roedd croeso i wirfoddolwyr, ac nid oedd angen unrhyw brofiad blaenorol, er y byddai angen cerbyd i gyrraedd rhai safleoedd. Amlygodd **PT** hefyd y cyfrif blynyddol yng Ngardd Goedwig Gymunedol Nature Wise yn Aberteifi, a drefnwyd ar gyfer dydd Sadwrn 21 Tachwedd. Trafododd yr aelodau y cofnodion glöynnod byw anarferol, effeithiau posibl tywydd poeth a sychder, a symudiad ehangach rhywogaethau tua'r gogledd. **Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru** Diolchodd **SMH** i'r Bartneriaeth am ei gwaith ar Wythnos Natur Cymru a Gŵyl Natur Ceredigion a chrybwyllodd werth y digwyddiadau a'r allgymorth cysylltiedig. Soniodd **SMH** fod Cynllun Gweithredu Hinsawdd a Natur Cymru Llywodraeth Cymru wedi'i gyhoeddi. Roedd yn ddyddiau cynnar ar y cynllun a'i fwriad oedd dod â gweithredu hinsawdd a natur at ei gilydd trwy ddull traws-lywodraethol. Roedd disgwyl i Fwrdd Hinsawdd a Natur oruchwylio'r gwaith, dan gadeiryddiaeth Gweinidog y Cabinet dros Gynaliadwyedd a Hinsawdd. Cyfeiriodd **SMH** hefyd at yr uwchgynhadledd bioamrywiaeth a gynhelir yn Armenia yn ystod mis Hydref. Roedd disgwyl i'r uwchgynhadledd adolygu'r cynnydd yn erbyn targedau bioamrywiaeth byd-eang, gan gynnwys y targed 30 erbyn 30 ac adfer ecosystemau diraddiedig. Nododd **SMH** bwysigrwydd Partneriaethau Natur Lleol wrth gyflawni camau gweithredu lleol ymarferol a nododd y byddai rhagor o wybodaeth yn cael ei rhannu wrth i ddatblygiadau polisi a chyllid cenedlaethol ddod yn gliriach.
12	

Camau Gweithredu **GC** i ymchwilio i weld a fyddai'r ddeiseb yn addas i'w chyhoeddi yn y cylchlythyr.	Dyddiad cau: 30 Medi.

	Diweddariadau a Thrafodaeth Staff
12	**Jake Rayson** Rhoddodd **JR** gyflwyniad am ddatblygu gwefan y Bartneriaeth a'r gwaith mapio, a sut y gallai'r rhain helpu i ddod â phrosiectau a gweithgareddau sy'n digwydd ledled Ceredigion at ei gilydd. Roedd y dull arfaethedig yn cynnwys datblygu proffiliau a mapiau partner sy'n dangos sefydliadau, safleoedd a phrosiectau. Roedd y Bartneriaeth wedi nodi tuag 80–85 o bartneriaid posibl. Byddai mapio yn helpu i wneud gweithgarwch presennol yn fwy gweladwy a gallai gefnogi cydweithio rhwng sefydliadau a chymunedau. Esboniodd **JR** y gallai mapio estyn y tu hwnt i gynefinoedd a nodweddion bywyd gwyllt i gynnwys gwybodaeth sy'n berthnasol i wydnwch lleol, gan gynnwys risgiau sy'n gysylltiedig â thân, llifogydd a llygredd. Gallai hyn helpu cymunedau i nodi adnoddau presennol, deall gwendidau lleol a chynllunio ymatebion ymarferol. Roedd y cyflwyniad yn ystyried sut y gellid datblygu mapio gyda phartneriaid trwy becyn o gymorth. Gallai hyn gynnwys paratoi proffil partner, cynhyrchu map, cynnal bio-blits neu arolwg gwaelodlin gydag ysgol leol, a datblygu mapio cymunedol o nodweddion cynefinoedd a risgiau lleol. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd cofnodi cynlluniau rheoli presennol. Gallai gwneud cynlluniau y cytunwyd arnynt a gwybodaeth am safleoedd yn fwy hygyrch helpu i sicrhau bod penderfyniadau rheoli yn cael eu deall ac nad yw'r gwaith a wnaed eisoes yn cael ei ddadwneud yn anfwriadol. Trafododd **JR** hefyd ddefnyddio OpenStreetMap a'r potensial ar gyfer mapio seilwaith bywyd gwyllt, gan gynnwys tyrau gwenoliaid duon. Roedd gwefan a chylchlythyr y Bartneriaeth ar y gweill, a'r cylchlythyr hefyd yn cynnig ffordd o gadw cysylltiad ag aelodau. Roedd prosiectau eraill yn cynnwys ffotograffiaeth pwynt sefydlog cod QR, a oedd yn dal i gael ei ddatblygu, a gwaith cynllunio Stori Wyllt gydag ysgolion cynradd. Roedd pedair ysgol gynradd wedi cymryd rhan yn ystod y flwyddyn flaenorol, ac roedd **JR** yn gobeithio estyn y gwaith i fwy o ysgolion yn 2027. Roedd diddordeb hefyd mewn archwilio mentrau cymunedol a chyfleoedd amaeth-goedwigaeth, o bosibl yn cynnwys Ffermydd Sirol, dysgu awyr agored i ysgolion a chefnogaeth ar gyfer bywoliaethau

13	amaeth-ecolegol. Trafododd yr aelodau sut y gallai prosiectau ymarferol annog cyfranogiad ehangach a helpu i gysylltu gwaith amgylcheddol â systemau bwyd lleol, ffermio a gwydnwch cymunedol. Roedd y drafodaeth yn cydnabod pwysigrwydd cefnogi cadwyni cyflenwi lleol a sicrhau bod polisi rheoli tir yn ystyried effeithiau tanreoli a gor-reoli fel ei gilydd. Trafodwyd y potensial ar gyfer mapio i gefnogi cynllunio argyfwng hefyd. Nododd yr aelodau ei bod yn werth nodi cymunedau sydd eisoes â chynlluniau llifogydd neu drefniadau lleol eraill, gan y gallai'r rhain ddarparu man cychwyn ar gyfer gwaith mapio cymunedol a gwydnwch ehangach. **Norman Birch** Rhoddodd **NB** yr wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiad Rhwydwaith Wardeniaid Coed Ceredigion, gyda chefnogaeth y Cyngor Coed. Roedd yn ddyddiau cynnar ar y rhwydwaith. Cafwyd dros 20 o fynegiadau o ddiddordeb gan ddarpar wirfoddolwyr yn dilyn cyhoeddusrwydd diweddar. Roedd rhagor o wybodaeth yn cael ei chasglu trwy ffurflenni aelodaeth fel y gellid deall diddordebau a sgiliau gwirfoddolwyr. Eglurodd **NB** fod cwmpas y gweithgarwch gwirfoddol yn dal i gael ei ddatblygu. Roedd gweithgareddau posibl yn cynnwys monitro coed ifanc ac eginblanhigion, nodi cyfleoedd plannu, cefnogi plannu cymunedol ac adolygu cofnodion Gorchymyn Diogelu Coed i wirio a oedd coed yn aros yn eu lle. Roedd trefniadau yswiriant yn cael eu trafod i gadarnhau pa weithgareddau y gallai gwirfoddolwyr eu gwneud a pha yswiriant fyddai ei angen. Cysylltwyd â Chynghorau Cymuned ledled Ceredigion a'u gwahodd i gymryd rhan, er nad oedd ymatebion wedi'u cael eto. Eglurodd **NB** y byddai'r dull a ffefrir yn cynnwys cynrychiolwyr cymunedol a allai drefnu gweithgareddau lleol gyda chefnogaeth y rhwydwaith, yn hytrach na gofyn i'r Cyngor drefnu pob gweithgaredd yn ganolog. Gallai'r Cyngor Coed ddarparu hyfforddiant, cymorth grant a chyngor ar gyfleoedd ariannu. Roedd diwrnod agored hefyd wedi'i gynnal mewn meithrinfa goed ac roedd y feithrinfa wedi cynnig cynnal digwyddiad pellach i wirfoddolwyr pan fyddai'r rhwydwaith wedi'i sefydlu'n well. Roedd sesiwn hyfforddi ragarweiniol ar y cyd yn cael ei chynllunio gyda Pharc Cenedlaethol Arfordir Penfro, gan dynnu ar ei brofiad o gynnal rhwydwaith wardeiniaid coed am fwy na deng mlynedd. Awgrymodd aelod gysylltu â Rachel Carter yn Un Llais Cymru, a oedd eisoes yn gweithio gyda rhai cynghorau cymuned ac a allai helpu i nodi grwpiau sydd â diddordeb mewn cymryd rhan. Croesawodd NB yr

	awgrym. **Sarah Smith** Esboniodd **SS** ei bod yn parhau i weithio fel Ecolegydd Cynllunio tra bod proses ailstrwythuro'r Cyngor yn parhau. Nid yw strwythur y tîm cadwraeth yn y dyfodol a'r trefniadau ar gyfer staff yn glir eto. Mae **SS** yn cefnogi **GC** gyda'r cyllid grant rhandir ar gyfer prosiect tyfu bwyd cymunedol Hyb AberEco yn y Brifysgol. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda, gyda disgwyl i'r hawliad cyntaf am 50% o'r cyllid gael ei gyflwyno ddiwedd mis Hydref. Mae hi hefyd yn gweithio gyda'r tîm Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gynllun achredu arfaethedig ar gyfer Cod Morol Bae Ceredigion, fel rhan o Rownd 6 y Gronfa Natur. Mae'r cynnig yn cynnwys cyllid ar gyfer Ceidwad Dŵr amser llawn am dair blynedd. Roedd trafodaethau cychwynnol wedi digwydd, a chais wedi'i gynllunio ar gyfer mis Tachwedd a phenderfyniad cyllid yn cael ei ddisgwyl ar ôl y Nadolig. Nododd **SS** hefyd ei bod yn parhau i ddelio â gwaith cynllunio o ddydd i ddydd. Soniodd am gyflwyniad y tŵr gwenoliaid duon, gan egluro ei bod hi a'i chydweithwyr ecoleg cynllunio yn argymell blychau gwenoliaid duon yn rheolaidd fel gwelliant mewn ceisiadau cynllunio, a'i bod yn ddefnyddiol dysgu mwy am fanteision blychau nythu mewnol. Cyflwynodd **SS LL** sef myfyrwraig o Brifysgol Aberystwyth. Dywedodd **FM** fod y gwaith ar brosiect y Coedwigoedd Cenedlaethol wedi parhau, gyda gwaith creu grŵp coetir Biosffer Dyfi yn bwrw ymlaen a gwaith monitro wedi'i gynllunio ar ddau safle arall. Roedd y Sgowtiaid a'r gymuned leol wedi cyfrannu at y cynllun rheoli ar gyfer un o'r safleoedd, gyda gwaith ar y gweill i wella'r coetir ar gyfer bioamrywiaeth. Prynwyd blychau tylluanod hefyd i'w codi ar ffermydd, mewn partneriaeth â Tir Canol, yn rhan o'r prosiect. Roedd gwaith ar brosiect Tyrau Bywyd Gwyllt hefyd yn mynd rhagddo, gydag ymchwil yn cael ei chynnal i wahanol strwythurau sy'n addas ar gyfer amrywiaeth o safleoedd. Roedd **FM** wedi bod yn gweithio gydag ysgolion cynradd lleol i helpu disgyblion i ddysgu am goetiroedd a chwilio am fwystfilod bach, gyda gwaith yn cynnwys disgyblion ysgol uwchradd ar y gweill ar gyfer y tymor. Mae Prosiect Arfordirol Teifi yn dod i ben ddiwedd y flwyddyn a bydd Cynhadledd Prosiect Arfordirol Teifi ddydd Iau 19 Tachwedd yn Fisherman's Rest.
